# CYNGOR TREF ABERAERON

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CYFFREDINOL

**Pan fyddwch yn cysylltu â ni**

Bydd y wybodaeth yr ydych yn darparu (gwybodaeth bersonol megis enw, cyfeiriad, cyfeiriad ebost, rhif ffôn, sefydliad) yn cael ei brosesu a'i gadw er mwyn ein galluogi i gysylltu â chi ac ymateb i'ch gohebiaeth, darparu gwybodaeth a/neu gael gweld ein cyfleusterau a gwasanaethau. Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu na'i rhoi i drydydd parti heb eich caniatâd ysgrifenedig.

**Hawliau'r Cyngor i Brosesu Gwybodaeth**

**(**Rheolau Cyffredinol Amddiffyn Data Erthygl 6 (1) (a) (b) a (e))

Mae prosesu gyda chaniatâd deiliad y data; neu

Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol; neu

Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer tasg i'w chario allan er budd y cyhoedd neu mewn gweithred o awdurdod swyddogol sydd wedi ei ymddiried yn y rheolydd.

**Diogelwch Gwybodaeth**

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Tref Aberaeron i sicrhau diogelwch data personol. Rydym yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei ddiogelu oddi wrth unrhyw fynediad anawdurdodedig, colled, trin, ffugio, dinistrio neu ddatgelu heb awdurdod. Mae hyn yn cael ei wneud drwy'r mesurau technegol priodol a'r polisïau priodol.

Dim ond am y pwrpas y casglwyd y data a'r cyfnod sydd ei angen y bydd yn cael ei gadw, wedi hyn y bydd yn cael ei ddileu. Gellir gofyn i Gyngor Tref Aberaeron ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch unrhyw bryd.

**Plant**

Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata yn ymwneud â phlant (o dan 13) heb ganiatâd pendant rhiant/gwarcheidwad y plentyn dan sylw.

**Mynediad i Wybodaeth**

Mae gennych yr hawl i ofyn i gael gweld y wybodaeth sydd gyda ni amdanoch. Gallwch neud hyn drwy gysylltu gyda'r Clerc, Denfer Morgan.

**Cywiro Gwybodaeth**

Os ydych yn credu bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir, gallwch gysylltu â ni er mwyn i ni ddiweddaru eich manylion. I geisio am hyn cysylltwch gyda'r Clerc, Denfer Morgan.

**Dileu Gwybodaeth**

Os ydych yn dymuno i Gyngor Tref Aberaeron ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yna cysylltwch gyda'r Clerc, Denfer Morgan.

**Hawl i Wrthwynebu**

Os ydych yn credu bod eich data ddim yn cael ei brosesu am y pwrpas a'i casglwyd gallwch wrthwynebu drwy gysylltu gyda'r Clerc, Denfer Morgan.

**Hawliau yn Ymwneud â Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd a Phroffilio**

Nid yw Cyngor Tref Aberaeron yn defnyddio unrhyw fodd o benderfyniadau awtomataidd na phroffilio data personol unigolyn.

**Casgliad:** Yn unol â'r gyfraith, rydym ond yn casglu gwybodaeth amdanoch sydd angen ar gyfer gohebiaeth, gwybodaeth a darpariaeth gwasanaeth. Nid ydym yn defnyddio proffilio, na chwaith yn gwerthu neu basio ymlaen eich data at drydydd parti. Nid ydym yn defnyddio'ch data am unrhyw reswm heblaw'r rhai penodol. Rydym yn sicrhau bod eich data yn cael ei gadw'n ddiogel. Dilëir pob gwybodaeth nad oes pellach eu hangen. Adolygir ein Polisïau Preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn eu cadw fyny gydag amddiffyn eich data. (Gallwch geisio am gopi o'm polisïau unrhyw bryd).

**Cwynion**

Os oes gennych gwyn ynglŷn â'r ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu yna gallwch gwyno i Glerc y Cyngor a hefyd at Wyddfa's

Comisiynydd Gwybodaeth casework@ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 111

**Manylion cysylltu'r Clerc, Denfer Morgan:**

**Cyfeiriad: Nantgwyn, Heol Llyswen, Aberaeron SA46 0ED**

**ebost: ctaberaeron@btinternet.com**

**Tel: 07749320915**